Gyfeillion,

Braint o'r mwyaf yw gallu sefyll yma yn eich annerch am y bedwaredd waith.

Mae'n braf bod yn ôl yma yn Nant Gwrtheyrn, mae'n braf bod yn ôl yma yng nghadernid Gwynedd. Mae'n wyth mlynedd ers i ni droedio i'r Gogledd ddiwethaf, ac fel mae'n digwydd, mae'r geifr yma i'n croesawu eto i'r un man â lle cynhaliwyd Cynhadledd 2018.

Dyma'r eilwaith i ni ddod i'r Ganolfan Iaith Genedlaethol, ac mae'n bwysig cydnabod y ffaith ei fod yn fan sydd wedi bod yn allweddol bwysig yn y frwydr i gadw'r iaith fel iaith pob dydd ac mae'n dda gallu cefnogi, fel y mae'n dda i ni fedru manteisio ar y llecyn hyfryd hwn.

Diolch i chi aelodau Cymdeithas Sir Gwynedd am ddangos eich brwdfrydedd at waith yr Undeb ac am ein croesawu yn ôl yma. Mae'r diddordeb yn amlwg yn ddadl gref i'r Gynhadledd ymweld â mannau gwahanol o'r wlad er mwyn i ni fedru ail danio gweithgaredd.

Mae'n briodol iawn, wrth gwrs, ein bod yn ffarwelio'n seremonïol â Sara fel Llywydd yma gan ei bod yn Aelod o Gymdeithas Sir Gwynedd, wrth gwrs. Er rydym oll yn ymwybodol mai hogan o Fôn ydyw! Fodd bynnag, nid yw ei blwyddyn o waith drosodd o bell ffordd, a hyderaf y bydd yn parhau i gynnig yr un egni a brwdfrydedd mae wedi eu dangos hyd yn hyn i'r rôl. Diolch arbennig i ti am dy waith a dy arweiniad.

Fodd bynnag, Cynhadledd fawr Rhun yw Cynhadledd 2026. Edrychwn ymlaen yn fawr at ei anerchiad heno. Rydym yn ffodus iawn bod Ceredigion wedi bod yn hael wrth ryddhau Rhun am ddeuddydd yr wythnos. Diolch iddynt hwy ac i Gareth, Pennaeth Ysgol Bro Teifi, am fod yn barod iawn i drafod yn agored a chaniatáu'r rhyddhau.

Gwyddom, o brofiad, fod Rhun yn Gynadleddwr wrth reddf ac yn cynnig geiriau ac arweiniad doeth wrth drafod yn y Cyngor ac yn y Gynhadledd. Rwy'n edmygu'n fawr ei allu i wneud hynny ar fore Sadwrn y Gynhadledd yn enwedig. Diolch iddo yntau hefyd am ei barodrwydd i ddod yn Llywydd yn 2026-27

A thra ydym yn diolch, rwy'n awyddus iawn i ddiolch i'r tim sydd wedi bod wrthi'n paratoi at y Gynhadledd eleni – ac i Gwenno , ein Swyddog Aelodaeth, yn arbennig. am ymgymgymryd â threfniadau'r Gynhadledd yn yr wythnosau olaf hyn gan fod Nia wedi symud ymlaen o gyflogaeth UCAC.

Mae Mererid wedi bod yn gefn mawr wrth ymwneud â threfniadau manwl y Gynhadledd, fel y mae wedi bod yn gefn unwaith eto eleni yn gyffredinol, er gwaetha'r ffaith ei bod wedi torri ei horiau eleni. Diolch iddi a diolch hefyd i Iona am ei gwaith hithau yn paratoi ac yn trefnu'r cynigion, ymysg y cant a mil o bethau eraill mae'n ymwneud â hwy fel Swyddog Polisi.

Rwyf wedi cyfeirio eisoes at y ffaith bod Nia wedi gadael cyflogaeth UCAC bellach, ond diolch iddi hi am roi seiliau'r Gynhadledd yn eu lle.

Un arall sydd wedi gadael cyflogaeth UCAC yn yr wythnosau diwethaf yw Ywain, a diolch iddo yntau am ei weithgarwch fel Swyddog Maes Cynorthwyol rhan amser.

Er bod y tîm Maes wedi lleihau o ran nifer, maent yn parhau i gynnig cefnogaeth lawn, wrth gwrs, ac fe wyddoch pa mor brysur maent wedi bod dros yr wythnosau diwethaf yn enwedig. Mae'r newidiadau mewn patrymau gwaith yn golygu nad ydych wastad yn derbyn ymateb gan eich Swyddog Maes penodol o ran daearyddiaeth ar ddiwrnod arbennig, ond rwy'n mawr obeithio mai cryfder yw hynny wrth i bob yr un ohonom elwa o arbenigedd amrywiol y criw. Diolch i chi Roger, Dilwyn, Jen, Gareth a Mererid.

Diolch hefyd i'r tîm allweddol hwnnw, y tîm cefn llwyfan. Mae Mair a Gwenno yma gyda ni heddiw, gan amrywio eu dyddiau gwaith er mwyn cael gwneud hynny. Mae Gareth T a Siân yn rhan o'r tîm yn ogystal.

Rwy'n  mawr obeithio y gwelwn ychwanegiad cyffrous i'n tîm yn yr wythnosau nesaf wrth i ni fynd ati i apwyntio Uwch Swyddog Gweinyddol fydd yn fodd o ail strwythuro fydd, gobeithio, yn sicrhau rhediad mwy effeithiol i'r Undeb ac yn ei dro yn gwella'r gwasanaeth i aelodau.

Yn strwythurol, rwyf eisoes wedi cyfeirio at at y Gynhadledd fel arf i ail gydio mewn pethau, ond mae'n amlwg yn her gallu cynnull nifer o aelodau o hyd ynghyd wrth gynadleddau ac wrth gyfarfod yn gyffredinol. Mae rhai o'r rhesymau dros hynny'n amlwg, ond mae'n rhaid i ni werthuso ac ystyried newid ein strwythurau o ddifri dros y flwyddyn nesaf fel y gallwn fod yn barod i wynebu'r heriau a ddaw.

Mae'r Undeb bellach ar seiliau ariannol cadarn. Diolch i Huw, ein Trysorydd Cenedlaethol, am sicrhau hynny. Mae'n braf cael rhywun sydd yn deall arian ac yn gallu cynnig arweiniad doeth yn y maes.

Felly, pwy bynnag fydd Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb erbyn Medi 2027, rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn yn gallu sicrhau fod llais ein haddysgwyr yn cael ei glywed yn glir a'u bod yn parhau i dderbyn y gefnogaeth a'r arweiniad angenrheidiol.

Ond, mae'r misoedd nesaf yn sicr am brofi'n her. Af i ddim i dynnu sylw at yr heriau hynny yma eto, ond mae'n amlwg fod yr Etholiad Cyffredinol, a sgil effeithiau'r canlyniad, â'r potensial o greu daeargryn yma yng Nghymru. Dydw i ddim yn arferol yn defnyddio'r cyfle yma i wneud pwynt gwleidyddol penodol – ond, mae'n amlwg fod dau ddewis yn ein hwynebu. Hyderaf y byddwch chi, ac aelodau UCAC yn gyffredinol yn pleidleisio ac yn gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer ein hysgolion; ein plant; ein cymunedau; ein hiaith a'n gwlad.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch o galon i chi gynadleddwyr am eich brwdfrydedd a'ch gweithgaredd i sicrhau bod seiliau cadarn i weithgarwch yr Undeb am y flwyddyn a bod

ein polisïau'n glir. Gobeithio y byddwch yn mwynhau y cyfle gwych yma i ni ddod at ein gilydd.

Mewn undeb mae nerth!